



# Deall Adeiladau Traddodiadol

## 2 Sut mae hen adeiladau yn gweithio: Gwneud y gorau o'ch adeilad waliau solet traddodiadol

Mae'r daflen hon yn egluro sut mae adeiladau traddodiadol yn gweithio. Mae'n dangos sut mae gwneud y gorau o rinweddau arbennig eich adeilad traddodiadol, a sicrhau ar yr un pryd ei fod yn sych, yn gynnes, ac mewn cyflwr i bara o leiaf oes arall.



## Beth yw 'adeiladau traddodiadol' a pham maent yn bwysig?

Adeiladau traddodiadol fel arfer yw'r rhai a adeiladwyd cyn 1919, gyda waliau solet yn hytrach na waliau ceudod, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol megis cerrig, pridd, bricks, pren a chalch (a ddefnyddiwyd ar gyfer mortar, rendrad a phaent).

Mae pob adeilad traddodiadol sydd wedi goroesi hyd heddiw yn bwysig, waeth beth yw ei faint, ei fath na'i statws. Mae'r adeiladau hyn yn adlewyrchu mewn modd unigryw hanes cymdeithasol a diwylliannol yr ardal lle maent yn perthyn ac mae eu cyfraniad yn fawr i gymeriad ein cefn gwlad, ein pentrefi a'n trefi.

Mae llawer o adeiladau traddodiadol yn dal i gael eu defnyddio o ddydd i ddydd; maent i gyfrif am oddeutu traean o holl gartrefi Cymru, er bod y gyfran yn gostwng erbyn hyn.

Os ydych yn berchen ar adeilad traddodiadol neu'n byw mewn adeilad o'r fath mae gennych gyfle i ofalu am ddarn bychan ond unigryw o hanes. Er hynny, mae gofalu am adeilad o'r fath yn gallu bod yn her, yn enwedig o ystyried yr angen heddiw i wella effeithlonrwydd ynni yn ein cartrefi. Mae'r daflen hon yn egluro sut i oresgyn yr her o ofalu am adeilad traddodiadol yn yr unfed ganrif ar hugain drwy ddeall sut mae'n gweithio a beth sy'n ei wneud yn arbennig.

## Y broblem

Tamprwydd yw'r hyn sy'n achosi'r problemau mwyaf cyffredin mewn hen adeiladau. Tamprwydd hefyd yw'r rheswm a roddir gan amlaf dros iddynt fethu â chyrraedd safonau byw modern. Nid oes yn rhaid i adeiladau traddodiadol fod yn damp. Gan eu bod yn gweithio mewn ffordd wahanol iawn i adeiladau modern, mae angen gofalu amdanynt mewn ffordd wahanol.


**Llun y clawr:** Talacharn  
**I'r chwith:** Newton House, Parc Dinefwr, Llandeilo  
 Darganfod Sir Gâr

## Beth sy'n gwneud adeiladau traddodiadol yn wahanol?

Mewn adeiladau modern, defnyddir deunyddiau anhydraidd (pilenni gwrth-damp, rendradau sment a phaent sythetig) i ffurfio rhwystr sy'n atal gwlybanaeth rhag mynd i mewn i ffabrig yr adeilad.

Waliau solet sydd gan adeiladau traddodiadol. Er mwyn cadw'n sych maent yn dibynnu ar drwch y wal a'r defnydd o ddeunyddiau sy'n caniatáu i wlybanaeth dreiddio trwyddynt. Mae ffabrig yr adeilad


**Wal solet draddodiadol sy'n anadlu**



**Defnyddiau anhydraidd Modern:** Caerfyrddin

yn sugno'r gwlybanaeth yn ystod cyfnodau o damprwydd, ond mae'n gallu anweddu'n naturiol yn ystod cyfnodau sychach. Mae'r anweddu'n atal waliau solet rhag bod yn damp drwy gydol yr amser, ond mae hyn yn cael ei beryglu os defnyddir deunyddiau anhydraidd.

**Canlyniadau o ddefnyddio deunyddiau modern anhydraidd**





### Waliau "Clom": Lletty Du Uchaf

confensiynol sy'n cael eu hargymell ar gyfer trin tamprwydd mewn adeiladau traddodiadol yn aml yn helpu i waethygu'r broblem yn hytrach na'i datrys.

## Y frwydr yn erbyn tamprwydd

### Gwneud adeiladau'n wrth-ddŵr

Mae bron yn amhosibl gwneud adeiladau waliau solet yn wrth-ddŵr mewn modd confensiynol oherwydd mae gwlybanaeth yn dod i mewn o amrywiaeth o ffynonellau.

### Dŵr daear

Mae gwlybanaeth o'r ddaear yn teithio ar i fyny ac i mewn i ffabrig sych. Mae'r codiad capilari hwn yn cynyddu os gadewir i ddŵr gasglu ar waelod wal. Mae draenau wedi blocio neu wedi torri, lefelau tir y tu allan wedi codi, annibendod wedi casglu a llawr caled o sment neu slabiau i gyd yn gallu cyfrannu i'r broblem hon. Nid yw haenau gwrth-damp yn nodwedd o adeiladu traddodiadol. Er hynny, mae 'ffosydd bargod', a gafodd eu tyllu i arwain dŵr ychwanegol i ffwrdd o'r waliau wedi cael eu gweld o amgylch adeiladau sy'n dyddio o Oes yr Haearn yng Nghymru.

### Amsugniad

Mae deunyddiau naturiol a ddefnyddiwyd mewn adeiladau traddodiadol yn gallu amsugno llawer iawn o wlybanaeth. Os yw'r waliau'n cael eu gorchuddio ag araeau anhydraidd, efallai na fydd problemau'n dod i'r amlwg hyd nes y bydd y deunyddiau gwaelodol yn gwbl orlawn o ddŵr.

Mae sment a ddefnyddir i rendro a phwyntio, ac araeau plastig a philenni gwrth-damp i gyd yn dal gwlybanaeth y tu mewn i waliau solet. Felly maent yn achosi niwed sylweddol i hen adeiladau, ac nid ydynt yn ddewis effeithiol yn lle technolegau traddodiadol.

## Felly pam mae rendrad sment yn cael ei ddefnyddio ar gymaint o hen adeiladau?

Yn ogystal â dechrau rhoi waliau ceudod mewn adeiladau ym mlyneddau cyntaf yr ugeinfed ganrif yn lle defnyddio'r dulliau traddodiadol, dechreuwyd hefyd ddatblygu deunyddiau newydd synthetig y gellid eu masgynhyrchu. Roedd sment Portland yn hawdd i'w gael ac roedd yn caledu'n gyflym ac arweiniodd hynny at leihad yn y defnydd o forter calch. Roedd clochdar bod deunyddiau a thechnegau modern yn well a dechreuwyd eu rhoi mewn adeiladau traddodiadol.

Mae'r gred bod deunyddiau confensiynol yn 'gwella' hen adeiladau yn dal i fodoli heddiw, yn enwedig yn y frwydr yn erbyn tamprwydd. Er hynny, mae'r atebion



**I'r chwith, uchod:** Craciau mewn rendrad sment  
**I'r dde, uchod:** Materion cynnal a chadw  
**I'r chwith, isod:** Ffenestri codi pren traddodiadol  
**I'r dde, isod:** Ffenestr uPVC gwydr dwbl modern

wedi cael eu cynnal a'u cadw'n dda sy'n golygu bod dŵr yn gallu rhedeg lawr y waliau allanol.

### Symudiad

Mae adeiladau traddodiadol yn symud ac yn setlo'n naturiol, a hynny'n dymhorol (yn ôl y tywydd), a thros gyfnodau o amser. Mae sment yn anhyblyg ac yn hynod o frau, felly mae unrhyw symudiad yn achosi craciau, sy'n ddelfrydol ar gyfer gadael gwlybanaeth i mewn. Mae'r craciau hyn yn broblem fawr os nad yw'r toeau a'r cafnau

## Gwlybanaeth y tu mewn i adeiladau traddodiadol

Mae awyru digonol yn hanfodol er lles adeilad traddodiadol a'r bobl sy'n byw yno. Credir yn aml fod aerglosrwydd yn ddymunol mewn adeiladau modern, ond mewn hen adeiladau mae drafft o ffenestri,





**I'r chwith, uchod:** Ffwng pydredd sych  
**I'r chwith, isod:** Ymosodiad gan bryfed (pryfed pren)  
**I'r dde:** Gwellt, plastr calch a gwyngalch:  
 Aberdeunant, Llansadwrn

## Beth yw'r dewis arall?

Mae rheoli gwlybanaeth yn effeithiol yn gallu gwella llawer iawn ar les eich adeilad traddodiadol, a bydd hynny'n creu amgylchedd byw mwy cysurus ac iach ar eich cyfer chi. Gellir sicrhau hyn drwy wneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd, gofalu bod awyru digonol a defnyddio deunyddiau priodol wrth drwsio ac atgyweirio.

### Archwiliadau Cynnal a Chadw:

- Mae archwiliadau rheolaidd yn golygu y gellir adnabod problemau'n gynnar.
- Gofalwch fod cafnau, peipiau dŵr a draenau yn glir a ddim yn gollwng.
- Gofalwch drwsio llechi rhydd neu rai sydd wedi torri.
- Cliriwch unrhyw annibendod o waelod waliau.
- Gofalwch fod dŵr yn gallu draenio'n ddigonol i ffwrdd o'r adeilad.

### Awyru:

- Nid oes rhaid i hen adeiladau fod yn ddrafftig bob amser, ond mae awyru digonol ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn yn atal gwlybanaeth rhag cronni y tu mewn.
- Mae ceginau ac ystafelloedd ymolchi yn gallu bod yn broblemus: gofalwch eich bod yn gallu agor y ffenestri a dylech osod ffaniau echdynnu os oes angen.
- Gofalwch fod unrhyw awyrellau gwreiddiol yn glir ac yn gweithio.

drysau a ffliwiau simneiau agored yn darparu awyriad hanfodol. Mae moderneiddio, gan gynnwys gwydro dwbl a chapio simneiau, yn aml yn atal awyru goddefol.

Mae awyru'n helpu i sychu ffabrig adeiladu, ac mae'n atal awyr gynnes a llaith sy'n deillio o weithgareddau domestig rhag cael ei ddal y tu mewn i'r adeilad.

## Canlyniadau tamprwydd

Y tu mewn i'r adeilad, mae tamprwydd ynghyd â chynhesrwydd o'r gwres canolog, yn creu llawer o leithder, sy'n gallu achosi anwedd a llwydni. Mae cysylltiad wedi'i wneud rhwng y rhain a phroblemau anadlol a phroblemau iechyd eraill.

Mae waliau tamp yn dargludo gwres yn llawer cyflymach na waliau sych. Mae hyn yn arwain at golli mwy o wres yn ystod tywydd oer sy'n golygu biliau gwresogi mwy costus.



- Gofalwch fod yr awyrellau yn y bondo yn glir er mwyn cynnal llif awyr rhwng yr insweiddio ar dop y to ac o dan y deunydd to, yn ogystal ag yng ngwagle'r to.

### Deunyddiau:

- Mae'r rhan fwyaf o hen adeiladau wedi cael eu trwsio a'u hatgyweirio trwy ddefnyddio deunyddiau confensiynol ar ryw adeg. Trwy barhau i ddefnyddio'r math hwn o gynnyrch gellir peri i broblemau sy'n bod eisoes waethygu a chreu problemau mwy efallai yn y dyfodol.
- Mae'n well gwneud unrhyw waith angenrheidiol gan ddefnyddio deunyddiau priodol. Trwy ail-osod deunyddiau anadlol sy'n gweithio gyda'ch adeilad bydd hynny'n dechrau unioni'r problemau a bydd yn fuddiol i'r adeilad drwy adael iddo weithredu fel y bwriadwyd yn wreiddiol.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

- Mae morterau, rendradau a golchiadau calch yn caniatáu i wlybanaeth dreiddio trwyddynt (maent yn anadlol) a hefyd maent yn gallu ymdopi â'r symud naturiol sy'n digwydd mewn adeilad traddodiadol drwy broses o ficro-gracio a gwella ohono'i hun.
- Mae gwyngalch, casein a phaentiau clai yn addas i'w rhoi dros forterau calch.

## Rhestr wirio

Cadwch y ffabrig gwreiddiol lle bynnag y gellir, gan gynnwys unrhyw forter calch sy'n weddill y gellir ei drwsio yn hytrach na'i newid.

Os oes rhaid ei newid, dewiswch gydrannau a deunyddiau sydd mor agos â phosibl at y gwreiddiol.



Darganfod Sir Gâr

## Sgwâr y dref, Llanymddyfri

Gall pwyntio a rendro â sment niweidio carreg feddal neu frics sydd oddi tanodd, felly dylid ei waredu â gofal gan ystyried y ffabrig gwaelodol. Gwnewch yn sicr bod eich adeiladwr yn deall calch ac yn brofiadol yn ei ddefnyddio.

Os ydych yn gwneud gwaith mawr, holwch eich swyddog cynllunio/ cadwraeth lleol yn gyntaf i weld a oes angen caniatâd.

## Gwybodaeth bellach

Gall Canolfan Tywi roi rhagor o wybodaeth i'ch helpu i ddeall eich adeilad traddodiadol a gofalu amdano.

### Enwau cyswllt

Canolfan Tywi: 01558 824271

[www.canolfantwywi.org.uk](http://www.canolfantwywi.org.uk)

The Society for the Protection of Ancient Buildings (SPAB): 020 7377 1644

[www.spab.org.uk](http://www.spab.org.uk)

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) 01970 621200

[www.cbhc.gov.uk](http://www.cbhc.gov.uk)

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed: 01558 823121

[www.dyfedarchaeology.org.uk](http://www.dyfedarchaeology.org.uk)

Cadw: 01443 336000

[www.cadw.wales.gov.uk](http://www.cadw.wales.gov.uk)

### Prif Awduron

Helen Whitear & Tom Duxbury



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig; Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig

The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government